Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Regional Partnership Board

MEYSYDD BLAENORIAETHOL DEMENTIA:

# Mesuriadau Data

**Deall ein poblogaethau.**

**Data cywir ac ystyrlon.**

**Mae deall ein poblogaeth yn hanfodol i ddatblygiad gwasanaethau. Mae angen i ni wneud yn siŵr bod ein data'n dda a'n bod ni'n gallu gweld ble rydyn ni'n gwneud yn dda er mwyn gallu gwneud mwy o hynny, a ble dydyn ni ddim yn gwneud yn dda fel y gallwn dargedu'r meysydd hynny i'w gwella.**



## BETH SY'N BWYSIG I BOBL Â DEMENTIA?

Mae pobl â dementia a'u gofalwyr eisiau gwasanaethau da sy'n addas i ddiwallu eu hanghenion.

Bydd cael mesuriadau data da nid yn unig yn ein helpu i wella ansawdd yr hyn a ddarparwn ond bydd yn ein helpu i ddeall y bylchau mewn gwasanaethau a ble mae angen i ni wneud newidiadau.

## BETH FYDDWN NI'N EI WNEUD GYDA'N GILYDD:

Rydyn ni eisiau deall ein poblogaeth er mwyn gallu datblygu gwell gwasanaethau.

**Ein nod yw gwneud hyn drwy:**

- Gwella ein casglu data.
- Gweithio gyda'n meddygon teulu i ddeall ein poblogaeth o bobl â dementia.
- Gwella sut rydyn ni'n cofnodi canlyniadau i bobl er mwyn gallu lledaenu arfer da a gwella gwasanaethau.

**Rydyn ni'n bwriadu:**

- Symleiddio ein data i sicrhau cysondeb.
- Creu system i gofnodi nifer y cleifion â dementia.
- Sicrhau bod ein ffrydiau gwaith yn bodloni eu hamcanion.
- Integreiddio ein system gyfrifiadurol er mwyn gallu rhannu gwybodaeth yn well.



**DYWEDODD POBL**

**Mae data da yn ein helpu i wneud penderfyniadau gwell."**

## PA WAHANIAETH FYDD HYN YN EI WNEUD?

- Mae angen i ni wneud yn siŵr ein bod ni'n mesur ein llwyddiannau ac yn targedu ble mae angen i ni wella. Gallwn wneud hyn drwy gael data perfformiad da, drwy wneud yn siŵr bod systemau'n cael eu datblygu i gofnodi cynnydd, a thrwy amlygu meysydd o arfer da i'w rhannu.